

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD IAU, 21 MEDI 2023

**PRESENNOL** Cyngorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

P. Cooper

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

S.A. Curry

A. Evans

W.T. Evans

J.K. Howell

D. Jones

M.J.A. Lewis

B.D.J. Phillips

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**

L. Bradshaw - Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

A. Eynon, Prif Gyfieithydd

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu

M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.50 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H. Jones, K. Madge a D. E. Williams.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 27 GORFFENNAF 2023.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

#### 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriadig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

#### 5. MR IAN RICHARD PRICE - DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Ian Richard Price, Crynga Bach, Llwyndrain, Llanfyrnach am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Gan nad oedd Mr Price yn bresennol yn y cyfarfod, gofynnodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu am ohirio'r ystyriaeth i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y cais a gyflwynwyd gan Mr Price i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

#### 6. MR PHILIP GEORGE MALIPHANT - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Philip George Maliphant, Ystafell Fach, Heol Llanddarog, Llanarthne am ganiatáu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Bu'r Pwyllgor yn cyfwrdd â Mr Maliphant ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Maliphant yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD** cynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu cais Mr Maliphant am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**7. MR ROBERT DANIEL ISAAC - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.**

**8. MR STEVEN PETER CAREY - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Steven Peter Carey, 38 Mount Pleasant, Tre-gŵyr, Abertawe am ganiatáu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Roedd yr Pwyllgor wedi cyfweid â Mr Carey ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu a chynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Carey yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD wrthod y cais a gyflwynwyd gan Mr Carey am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rhesymau

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd ac wrth ystyried y canllawiau perthnasol, roedd y Pwyllgor yn fodlon nad oedd yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**9. MR GEORGE JULIAN PETER CHEESEMAN - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod yr eitem wedi'i thynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod yr eitem wedi'i dynnu'n ôl.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**10. MR NATHAN EDWARD JAMES COURTNEY - TRWYDDED YRRU DDEUOL  
CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod yr eitem wedi'i thynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod yr eitem wedi'i dynnu'n ôl.**

---

**CHAIR**

---

**DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf